# Dweud eich dweud

**Rydym yn gwahodd eich adborth ar ein cynigion ar gyfer ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae ein hymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg o 20 Ionawr 2025 am 12 wythnos. Anfonwch eich ymateb atom erbyn 23:59 ar 14 Ebrill 2025. Efallai na fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl hynny yn cael eu hystyried.**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau ein holiadur ar-lein yn yr ystafell arddangos rithwir hon trwy glicio ar yr eicon papur ar waelod y bwrdd arddangos hwn, neu a welir yn y panel llywio yn y sgrin ystafell arddangos rithwir hon.

Fel arall, gallwch lawrlwytho copi electronig trwy glicio ar y ddogfen holiadur, y gallwch ddod o hyd iddi wedi'i gosod ar y bwrdd yn yr ystafell arddangos rithwir hon.

Gallwch e-bostio eich ymatebion at **northwalesregionaltransportplan@arup.com** neu ysgrifennu atom a phostio copïau printiedig o'r holiadur i: **FREEPOST UGC / ANW.**

Os oes gennych gwestiynau am yr ymgynghoriad, gallwch gyfeirio at ein dogfen Cwestiynau Cyffredin (FAQ), sydd hefyd ar gael i'w gweld ar y bwrdd yn yr ystafell arddangos rithwir hon.

Gallwch hefyd siarad â'n tîm prosiect, neu ofyn am gopïau papur a fformatau amgen drwy gysylltu â thîm y prosiect ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ein ffonio ni ar **01172 405 350.**

Gallwch weld copi papur o'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn y rhan fwyaf o adeiladau llyfrgell, canolfannau cymunedol, colegau a phrifysgolion lleol ledled Gogledd Cymru. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni i gadarnhau cyn i chi wneud ymweliad drwy anfon e-bost atom neu ein ffonio.

Gall awdurdodau lleol drefnu igwyddiadau lleol i helpu pobl i drafod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac annog cyfranogiad yn yr ymgynghoriad. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol os ydych chi am wybod mwy. Hefyd, gellir hysbysebu manylion unrhyw ddigwyddiadau awdurdodau lleol ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Beth fydd yn digwydd nesaf**

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a gawn yn ofalus a bdd yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru a chwblhau ein cynlluniau, a fydd yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo yng **ngwanwyn 2025.** Rydym yn bwriadu cyhoeddi a mabwysiadu ein cynlluniau yn **haf 2025.**

Byddwn yn llunio adroddiad ymgynghori i esbonio sut mae eich adborth wedi'i ystyried. Gellir llunio cofnod o sylwadau y gellid eu cyhoeddi. Bydd eich adborth, gan gynnwys unrhyw sylwadau, yn ddienw ac ni fyddant yn cael eu priodoli i unrhyw unigolyn na sefydliad.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i weithredu ein cynlluniau a chyflawni ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru bywiog, cynaliadwy a gwydn. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni ar y daith hon, wrth i ni ymdrechu i greu system drafnidiaeth integredig sydd o fudd i bawb ac sy'n cefnogi dyfodol ffyniannus a llewyrchus i Ogledd Cymru a thu hwnt.